ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 14 Hydref 2017

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

HWYL YN Y GELLI

PWY ARALL OEDD YNO? **Tudalen gefn**

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Tachwedd 5	Gweinidog
12	Parch. Cledwyn Williams
19	Gweinidog
26	Parch. Casi Jones *Bore*
Rhagfyr 3	Gweinidog
10	Parch. Eric Jones *Hwyr*
17	*Bore* Gwasanaeth Nadolig Ieuenctid *Hwyr* Gwasanaeth Nadolig y Plant
24	Gweinidog
25	NADOLIG 10.00 Undebol Berea Newydd
31	*Bore'n unig*
Ionawr 7	Gweinidog
14	Parch. Pryderi Llwyd Jones
21	Gweinidog
28	Parch. Gerallt Lloyd Evans

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Tachwedd 5	Maldwyn Thomas
12 a 19	Liz Roberts
26 a Rhagfyr 3	Gareth Emlyn Jones
Rhagfyr 10 a 17	Gwenno Pritchard
24 a 31	Eirian Howells
Ionawr 7 a 14	Alwyn Lloyd Ellis
21 a 28	John Wynn Jones

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Tachwedd 5 a 12	Gwyn Jones
19 a 26	Cynthia Owen
Rhagfyr 3 a 10	Elin Walker Jones
17 a 24	Gwenno Pritchard
31 a Ionawr 7	Maldwyn Thomas
Ionawr 14 a 21	Arfon Evans

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Tachwedd 5	Sara Tudor
Tachwedd 12	Ann Roberts
Tachwedd 19	Morfydd Roberts
Tachwedd 26	Gwen Hughes
Rhagfyr 3	Margaret Tilsley
Rhagfyr 10	Enid Roberts
Rhagfyr 17	Eleri W. Jones
Rhagfyr 24	Eirian Howells
Rhagfyr 31	Eirian Howells

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Athymor y diolchgarwch wedi mynd heibio atgoffwn ein hunain mai da o beth eto eleni fu cael ennyd i fyfyrio ar waith Duw y Creawdwr a rhyfeddod y greadigaeth, a diolch iddo am ei holl fendithion inni.

Cawsom ym Merea Newydd oedfa ddiolchgarwch fendithiol a diddorol iawn gan yr ysgol Sul ar 15 Hydref, gyda'r dosbarthiadau yn enwi'r pethau y dymunent ddiolch amdanynt gan esbonio pam. Ar y rhestr yr oedd iaith, addysg, cyfle i ddilyn diddordeb a siopau llawn; haul sgleiniog, cyfle i fynd allan i chware, tŷ cynnes, dŵr glân, ffrindiau a chyfleuster car i fynd i bartïon! Drannoeth, ar y dydd Llun diolchgarwch traddodiadol, cynhaliwyd gwasanaeth ar ffurf cyfarfod gweddi gyda nifer o'r aelodau yn cyfrannu, a chafwyd te bach i ddilyn.

Y mae diolchgarwch yn un o nodweddion prydferthaf bywyd, a chan ei fod yn ein cymell i gyfrif ein bendithion y mae hefyd yn ein helpu i osgoi hunandosturi a'r duedd i gymryd popeth yn ganiataol. Sylweddolwn wrth ddiolch nid yn unig pa mor dda ein byd yr ydym, ond hefyd pa mor galed yw bywydau pobl sy'n brin eu hadnoddau, yn byw dan amgylchiadau anodd neu'n dioddef o achos llesgedd a gwaeledd.

Mae diolchgarwch Cristnogol hefyd yn ein hatgoffa y dylem roi clod i Dduw am ei roddion ysbrydol ac yn ennyn yn y credinwyr ffydd ac ymlyniad. Dyma fel y mynegwyd hynny yng ngweddi enwog Sant Richard o Chichester (1197–1253):

Diolch i ti, O Arglwydd Iesu Grist,
am yr holl ddoniau a roddaist i mi,
am yr holl boenau a'r sarhad a ddygaist drosof.

O drugarocaf Waredwr, Gyfaill a Brawd
bydded i mi dy adnabod yn gliriach,
dy garu'n anwylach,
a'th ddilyn yn agosach,
ddydd ar ôl dydd.

Ym mis Medi croesawyd Mr Owain Davies atom yn weithiwr plant, ieuenctid a theuluoedd ym Merea Newydd a'r ofalaeth. Bellach y mae wedi hen ymgartrefu yn ein plith, ac wedi cychwyn ar ei waith yn helpu i ehangu'r ddarpariaeth sydd gennym ar gyfer plant a phobl ifanc. Diolchwn iddo am ei ymroddiad a'i frwdfrydedd, a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol gan weddïo y bydd bendith Duw ar holl waith a thystiolaeth ei Eglwys.

Dymunwn yn dda i'r ieuenctid sydd wedi cychwyn ar yrfa newydd yn ystod y misoedd diwethaf, neu ar gwrs hyfforddiant mewn prifysgol neu goleg. Boed i chwi gael mwynhad a bendith o'ch gwaith, gan ddal ar bob cyfle i ddatblygu a meithrin eich doniau. Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael ac yn llesg, ac yn enwedig y rhai a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty neu a brofodd golled a galar. Sylweddolwn nad yw rhai o'r aelodau yn gallu dod i'r oedfaon yn ôl eu harfer, a hyderwn fod derbyn Ichthus yn gyson yn fodd i gadw eu cysylltiad â'r Achos.

Bendith Duw fo arnom i gyd wrth i ni barhau i ddiolch am ei gariad a'i ddaioni Ef.

Y GYMDEITHAS

CIP AR WREIDDIAU'R ARCHDDERWYDD

MENNA BAINES

Cafwyd noson dda iawn i agor tymor newydd y Gymdeithas ar 12 Hydref a hynny yng nghwmni Geraint Lloyd Owen, y cyn-brifathro ysgol, y bardd a'r Archdderwydd presennol. Cawsom gip difyr ar ei blentyndod ef a'i frawd, y diweddar Gerallt Lloyd Owen, yn y 1940au a'r 1950au yn ardal y Sarnau, ardal gyfoethog ei diwylliant a naturiol ei Chymreictod. Byddai pobol ddifyr yn ymweld â'u cartref ac â'r siop a'r swyddfa bost a gadwai eu mam yn y pentref, ac un a fyddai'n gwarchod y ddau frawd yn aml oedd Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn). Byddai Bob Lloyd yn warchodwr wrth eu bodd, nid yn unig am ei fod yn dweud straeon wrthynt ond am ei fod yn gadael iddynt fynd i'r gwely'n hwyr a hynny yn erbyn siars eu rhieni. Roedd hi hefyd yn ardal lle'r oedd pawb fel petaent yn troi eu llaw at farddoni, p'run a oedd ganddynt ddawn yn y maes ai peidio!

Fodd bynnag, yn ogystal â chael clywed rhai o ymdrechion tila ac anfwriadol ddoniol rhai o feirdd llai llwyddiannus ardal ei fagwraeth, soniodd Geraint fel y cafodd ei synnu lawer gwaith yn ei fywyd gan allu geiriol rhai pobol a hynny ambell dro yn annisgwyl. Daeth ar draws doniau cudd ambell waith yn sgil ei waith fel tiwtor dosbarth nos. A cheir perlau weithiau gan blant fel y profodd fwy nag unwaith yn ystod ei gyfnod fel prifathro ysgol gynradd. Dywedodd mai un peth yr oedd wedi'i ddysgu yn sgil ei brofiad o blant, fel athro ac fel tad, oedd peth mor rhyfeddol yw'r dychymyg a pha mor bwysig yw rhoi'r rhyddid iddo fodoli a thyfu ynghanol byd o reolau. Does dim cwpled mwy addas i gyfleu hynny nag eiddo ei frawd, Gerallt, a ddyfynnwyd gan Geraint ar y noson:

Pan feddwn dalent plentyn
I weld llais a chlywed llun.

CORWYNT CARIAD

CYNGERDD CORWYNT CARIAD

Cofiwch am y cyngerdd codi arian hwn yn Berea Newydd, gyda Chôr Seiriol a Huw Harvey.

Nos Fawrth, 21 Tachwedd, 7pm. Tocynnau: £5

ROBERT LUKE JONES

EIN HORGANYDD IFANC

GERAINT PERCY JONES

Bachgen o Lanfairfechan yw Robert ac yno yn yr ysgol leol y derbyniodd ei addysg gynradd. Yno hefyd y dangosodd gyntaf ei allu a'i ddawn arbennig ar chwarae'r organ. Yn y cyfnod 2008 - 2012, er mor ifanc ydoedd, yr oedd yn organydd cynorthwyol yn Eglwys y Santes Fair.

Y mae Robert hefyd yn falch o gael ei ystyried yn un o hogiau Bangor. O Ysgol Tryfan aeth i Brifysgol Bangor lle yr enillodd radd dosbarth cyntaf mewn cerddoriaeth gan arbenigo ar chwarae'r organ. Eleni y mae newydd gwblhau cwrs am radd Meistr a nos Iau, 28 Medi, yn rhan o'r radd honno, rhoddodd ddatganiad meistrolgar ar yr organ yn Neuadd Prichard Jones. Bu rhai aelodau o Berea Newydd yno yn mwynhau "Cerddoriaeth i gofláu 500 mlynedd ers y Diwygiad Protestannaidd".

Ar ddechrau Rhaglen y Datganiad y mae Robert yn cydnabod ei ddyled i Graham Eccles, ei diwtor ar yr organ. Bu ef yn hael ei gyngor, bu'n gyfaill, ac ehangodd orwelion cerddorol Robert. Pleser hefyd i Robert fu gweithio gyda Dr Iwan Llywelyn-Jones, ei oruchwyliwr ymchwil. Mwynhaodd ei gwrs gradd yn enfawr a chydnebydd ei ddyled i staff y Brifysgol a'r Ysgol Gerdd - Yr Athro Chris Collins, Dr John Cunningham, Wyn Thomas a Richard Craig. Bu cyd-fyfyriwr yn yr Adran, Emily Knowles, yn garedig yn ei gynorthwyo ymhob datganiad.

Y mae cysylltiad Robert â'r Gadeirlan ym Mangor yn bwysig iddo. Yn 2012 ef oedd 'Myfyriwr yr Organ' y Gadeirlan. Daeth llu o anrhydeddau i'w ran. Ef oedd 'Ysgolor yr Organ' Caplaniaeth Anglicanaidd Prifysgol Bangor. Yn 2014 yr oedd yn Organydd a Chyfarwyddwr Eglwys Gatholig ein Harglwyddes a Sant Iago ym Mangor. Gwnaeth ei CD gyntaf ar organ Eglwys Gadeiriol Caer. Yr anrhydedd diweddaraf a ddaeth i'w ran oedd rhoi Datganiad ar yr Organ yn Eglwys St Paul's, Llundain.

Gwyddom ni ym Merea Newydd am gefndir cerddorol cyfoethog teulu Robert ac am eu cefnogaeth frwd iddo ac yr ydym fel Eglwys yn dra diolchgar am ei wasanaeth hyfryd yn ein gwasanaethau. Diolchwn iddo am ei hynawsedd bob amser a dymunwn yn dda iddo yn ei astudiaethau pellach. Yr ydym yn sicr fod iddo ddyfodol disglair.

YR YNYS HIR NEU YNYSOEDD HELEDD (OUTER HEBRIDES)

GERAINT PERCY JONES

Ar feic y teithiodd Meira a minnau yn Ynysoedd Heledd ugain mlynedd yn ôl gan gropian ar ein pedwar i babell fechan bob nos. Yr haf hwn yr oedd gennym foethusrwydd Meirwen, y Camper Van, ond roedd y beics gennym hefyd i grwydro rhannau o'r ynysoedd cyfareddol hyn. Wrth baratoi ar gyfer y gwyliau yr oedd y ddau ohonom wedi ymgolli yn llyfr hyfryd Peter May, Hebrides, ac wedi gwirioni ar ffotograffau trawiadol David Wilson ynddo. Yn anffodus, ar ôl cyrraedd yn ôl ym Mangor y sylweddolais i fod cyfrol dra diddorol Harri Williams, Crwydro'r Ynys Hir, ar un o'm silffoedd. Gwr â'i wreiddiau ym Môn oedd Harri Williams ond treuliodd y rhan fwyaf o'i blentyndod yn Lerpwl. Bu'n gweithio yno mewn swyddfa am bum mlynedd ac yna aeth i Rydychen i ddilyn cwrs diwinyddol. Bu'n weinidog yn Nhywyn, Waunfawr cyn symud i ofalu am Eglwys yma ym Mangor. Yna bu'n gofalu am yr adran fugeiliol yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Yn ogystal â bod yn ddiwinydd yr oedd Harri Williams yn llenor medrus. Yn 1978 yng Nghaerdydd enillodd y Fedal Ryddiaith am ei gyfrol Y Ddaeargryn Fawr, cyfrol o hunangofiant dychmygol Soren Kierkegaard, yr athronydd, y llenor a'r diwinydd o Ddenmarc. Er gofidio am fy ngholled o beidio â chael cwmni teithiwr gwybodus a sylwgar, gŵr â chanddo ddiddordeb arbennig mewn adar, yr wyf wedi cael pleser yn ail-fyw fy ngwyliau wrth ddarllen y gyfrol hon a gyhoeddwyd gan Wasg y Dryw yn 1968.



Fel y disgwylid yr oedd gan Harri Williams ddiddordeb dwfn yng nghrefydd yr Ynysoedd. Yn fras iawn Pabyddol yw trigolion De Uist, Barra ac Eriskay a Phresbyteriaid pybyr sydd yng Ngogledd Uist, Lewis a Harris. I wybod mwy am enwadaeth ymysg y Presbyteriaid ar ôl mynd adre trois at gymorth y we. Digwyddai fod ar y Sul a'r hyn gefais ar Wefan y Free Presbyterian Church oedd - "We are closed for the Sabbath" a "This website is closed today in observance of the Lord's Day." Yn fy nghywreinrwydd yn ystod yr wythnos darllenais grynodeb byr o rai o gredoau'r enwad. Rhag gwneud anghyfiawnder â'r hyn a gredant cadwaf at y geiriau Saesneg gan ddewis pum adran yn unig.

Yr Ysgrythur: The Bible is the fully inspired, **infallible** and **inerrant** Word of

God, and therefore the only supreme rule for faith and life.

Duw: There is one God, who decreed all things from eternity, **created the entire universe in six days,** and governs the whole creation continually.

Pechod: All fell with Adam in his first transgression. Everyone is guilty of sin (which is disobeying God's law), and **deserves to be punished in hell for ever.**

Ffydd: Those who trust in Christ alone for the forgiveness of their sins, and repent, are accepted by God and **will go to heaven.**

Yr Ail Ddyfodiad: Jesus will return bodily at the Day of Judgement, when everyone who died will rise again. Those who trusted him for salvation **will go to heaven** with Him for ever, but the rest **will be cast into hell to endure conscious torment for ever.**

Fi sydd yn gyfrifol am dduo rhai ymadroddion. Mynychodd Harri Williams rai o'r gwasanaethau ac mae'r profiadau a gafodd yn werth eu darllen. Gwir fod hynny bron i hanner cant o flynyddoedd yn ôl. Yn ddiweddar bu cyfeillion i mi yn un o wasanaethau'r Wee Frees, gwasanaeth a barodd am ddwy awr. Nid oedd offeryn cerdd yno ac yr oedd y bregeth yn faith a diflas. Ni chawsant air o groeso gan neb ac ni welsant neb yn gwenu. Dyna lwcus ydym ni ym Merea Newydd.

Y BEIBL YN Y GAELEG

GERAINT PERCY JONES

Wrth i ni yng Nghymru eleni gofio mai bedair canrif a hanner yn ôl yn 1567 y cawsom Destament Newydd Cymraeg William Salesbury dylem werthfawrogi o'r newydd mor ffodus yr ydym fod cymaint o'n hysgolheigion disgleiriaf wedi cyfrannu at iaith gyfoethog ein Beibl. Ni fu yr un o'n cefndryd Celtaidd mor lwcus.

Yn y flwyddyn 2009 dechreuwyd ar gyfieithiad newydd o'r Testament Newydd i'r Gaeleg gan anelu at gael testun mewn iaith eglur, llawn urddas sydd yn agos at iaith-bob-dydd siaradwyr heddiw. Ond y mae hanes cyfieithu'r ysgrythur yn yr Alban yn hŷn na hyn. Yn 1567 argraffwyd y Llyfr Gweddi Cyffredin yn y Gaeleg. Hwn oedd y llyfr cyntaf i gael ei argraffu yn yr iaith. Yn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg cyfieithwyd yr Hen Destament i'r Gaeleg ond nis cyhoeddwyd. Yna yn 1767 cyhoeddwyd y Testament Newydd yn yr iaith ac yn 1801 cyhoeddwyd cyfieithiad o'r Hen Destament. Y mae bwlch enfawr rhwng iaith y cyfieithiadau uchod â Gaeleg siaradwyr heddiw.

DIWYGIAD BEDDGELERT 1817-22

Y PARCHEDIG DDOCTOR ELWYN RICHARDS

Nos Fercher 27 Medi cynhaliwyd darlith yng nghapel Peniel, Nantmor, dan nawdd Henaduriaeth Arfon, i goffáu cychwyn diwygiad Beddgelert 1817. Dyma'r diwygiad crefyddol mawr olaf a welodd Cymru cyn diwygiad 1904–05, a bu'n fodd i ychwanegu miloedd at aelodaeth yr eglwysi.

Robert M. Morris

Yn ei ddarlith olrheiniodd Mr Robert M. Morris, Pen-y-groes, hanes datblygiad crefydd yn ardaloedd Nantmor, Beddgelert a Rhyd-ddu gan ddangos nifer helaeth o luniau. Manylodd ar gyfraniad y rhai a barodd i dân y diwygiad ymledu o ardal Nanhoron yn Llŷn. Olrheinir dechrau'r diwygiad at bregeth a draddodwyd gan Richard Williams, Brynengan, yng nghegin ffermdy Hafod-y-llan ryw nos Sul ym mis Awst 1817. Nid ystyrid Richard Williams yn bregethwr grymus, a'i dystiolaeth ef ei hun oedd na wyddai yn iawn ai traddodi pregeth ynteu gwrando pregeth yn cael ei thraddodi a wnâi ef y noson honno! Ond cydiodd rhywbeth yn ei wrandawyr, ac yn y plant a'r ieuenctid a oedd o fewn clyw iddo yn y siambr a'r tŷ llaeth, a'r canlyniad oedd i bawb fynd adref mewn dychryn.

Pregethwr arall a gafodd oedfa nodedig, a hynny yn y Tylyrni yn Nantmor, oedd Robert Siôn Hugh o Lithfaen. Ystyrid yntau yn ddigon cyffredin ei ddoniau, ond perswadiodd Siân Roberts, y Clogwyn, haid o bobl ifanc i ddod i wrando arno yn y Tylyrni, yn hytrach na mynd i Dremadog i wrando ar John Elias. Cafodd yr hen bregethwr wynt dan ei adain a chafwyd oedfa ryfeddol.

Yn ei gyfrol *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon, 1906) mae'r Parchg Henry Hughes, Bryncir, yn neilltuo pum pennod i sôn am Ddiwygiad Beddgelert, a cheir ganddo lu o hanesion am y modd yr effeithiodd grym y diwygiad hwnnw ar Gymru benbaladr. Diolch i Robert Morris am grynhoi'r hanes, a dangos ei arwyddocâd, a'n hatgoffa ninnau o'n hetifeddiaeth ysbrydol a'n gwreiddiau.

Os hoffech chi ymateb i unrhyw gynnwys yn Ichthus, neu os hoffech gyfrannu i'r rhifyn nesaf (lonawr); yna rhowch inc ar bapur neu fys ar y sgrin, a'i yrru i:
4 Goleufryn, Penrhosgarnedd LL57 2LY
neu gdeiniol@hotmail.com

CERDD

PEREDUR LYNCH

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd cyfrol o gerddi gan un a ddaeth yn aelod gyda ni ym Merea Newydd yn ystod y flwyddyn, Peredur Lynch. Dyma un o gerddi'r gyfrol, cerdd er cof am fardd arall, un yr oedd ganddo gysylltiadau teuluol cryf gyda'r achos ym Mangor, sef Iwan Llwyd.

Cyhoeddwyd *Caeth a Rhydd* gan Wasg Carreg Gwalch.

IWAN

Mae sôn bod meibion y mans
O oes i oes yn niwsans.
O blwyf i blwyf maent yn bla
A'u hawl yw gwrthryfela.

Eu hawl hwy yw dod i'r wledd
Yn filain eu gorfoledd,
A rhoi her â'u chwerthin rhwydd
Yn oriau'r dwys ddistawrwydd.

Wedi awr dy angau di
Arhoswn yn y tresi.
Aeth glewder ein menter mwy
Yn lewder anweladwy.
Tir llwyd diantur yw llên,
Tŷ taeog yw tŷ awen.
Ein rhan yw dilyn yr haid
A gollwng cledd y gwylliaid.
Y reddf yw byw a gwrhau,
Anwylwn ein hualau!

Ond ni all dyrnod y ne'
Hawlio dy gân i geule.
Ni all un teyrn ei dryllio
Na chloi cerdd na chwalu co
Am steddfodau'r dyddiau da,
Na hawlio'r rebel ola'.

Yn daer, yn driw, byddi di,
Yn anniddig dy weddi,
Yn fardd o Fynwy i Fôn,
Yn hyfrydlais afradlon,
Yr her iach, yn chwerthin rhwydd
Yn oriau'r dwys ddistawrwydd.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

CANRIF RHWNG CLORIAU

ERIC JONES

Adolygiad o HANES METHODISTIAETH GALFINAIDD CYMRU, CYFROL IV: YR UGEINFED GANRIF (c.1914–2014) Tystiolaeth, Cenhadaeth a Her y Ffydd



Awnewch chi dynnu sylw at y gyfrol newydd hon ar gyfer *Ichthus* mewn rhyw 400 gair? Dyna'r cais, ac felly rhaid ufuddhau. Byddai angen mwy o ofod ac amser i adolygu cyfrol swmpus o dros 500 tudalen, ond mae'n gyfrol hardd sydd wedi ei hargraffu'n wych gan Wasg y Bwthyn a'i chyhoeddi gan Wasg Pantycelyn ar gais Pwyllgor Hanes yr enwad. Dyma, fe ddywedir, fydd yr olaf a gyhoeddir mewn cyfres o bedair cyfrol. Sylwaf mai dim ond £30 yw cost y gyfrol hon, sef £5 yn rhatach na'r un a'i rhagflaenodd chwe mlynedd yn ôl.

Gwerthfawrogwn ymdrechion diflino'r deuddeg ysgolhaig a lafuriodd i baratoi'r gyfrol hon o dan arolygaeth golygyddion goleuedig, a hwythau'n ceisio cwmpasu canrif o'n hanes trwy themâu amrywiol. Ond sylwer nad oes yr un ferch ymhlith y cyfranwyr, na sôn penodol am gyfraniad y chwiorydd.

Ymhlith y cyfranwyr abl a fu'n llafurio y mae rhai yr ydym yn eu hadnabod yn dda. Addoli a'r Bywyd Ysbrydol yw maes Elfed ap Nefydd Roberts, Credo a Diwinyddiaeth yw maes pwysig ein gweinidog, Gweithred a Deddf: Cyfansoddiad y Cyfundeb yw maes Meirion Morris. Trafod Y Genhadaeth Gartref a Thramor, ynghyd â Gwaith Plant ac Ieuenctid, a wna Dafydd Andrew Jones. Rhoddwyd y dasg anodd o roi Diweddglo: Y Presennol a'r Dyfodol i Glyn Tudwal Jones, a gwnaeth yntau waith rhagorol. A ninnau wedi gweld diflaniad distaw Cymanfa Ganu'r Henaduriaeth, dylem ddarllen ar fyrder y bennod ar Mawl a Chân gan Rhidian Griffiths.

Cawn lun o bob cyfrannwr, ynghyd â rhai o bregethwyr amlwg y ganrif yn ogystal â llun un cenhadwr, a diolch byth fod llun dwy genhades ymhlith yr holl ddynion. Dylem fod yn falch hefyd fod llun ein capel newydd ynddo, ynghyd â dau arall o'n Henaduriaeth. Y mae dau lun o staff a myfyrwyr ein hen Goleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth.

Ond tybed a gollwyd cyfle i roi llun ein staff gweithgar o'r swyddfa ganolog yng Nghaerdydd, a hefyd lluniau o'r gweithwyr yng ngholegau Trefeca a'r Bala, heb anghofio'r Coleg Gwyn? Ni allwn wynebu'r ganrif newydd heriol yma heb fyfyrio'n ddwfn ar gynnwys toreithiog y gyfrol hon. Cofiwn eiriau un arall y bu i rai ohonoch ei adnabod yn dda, sef R. T. Jenkins. Yn ei gyfrol yntau *Yr Apêl at Hanes*, meddai:

Y mae dyn a anwybyddo hanes yn ei ddiarddel ei hun o gymdeithas feddyliol dynolryw.

Cymhwyswn ei eiriau'n ofalus, a dywedwn Amen.

Golygydd: John Gwynfor Jones; Is-olygydd: Marian Beech Hughes
Gwasg Pantycelyn, £30

CROESAWU OWAIN

Mae ein Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd newydd bellach wedi dechrau ar ei waith. Braf oedd cael croesawu Owain Davies, Llanrwst, a'i deulu atom yn y gwasanaeth fore Sul 17 Medi a chafodd groeso yr un mor gynnes ym Methania y Sul wedyn. Y mae hefyd wedi dechrau dod i nabod criw CIC Bang, y clwb poblogaidd iawn ar gyfer plant uwchradd sy'n cyfarfod ym Merea bob nos Lun, ac eisoes wedi dechrau cynnal nifer o weithgareddau cyffrous gyda nhw. Mae'n bwriadu ailddechrau CIC Bang Bach hefyd. Cyn hyn roedd Owain yn gofalu am Ganolfan Hamdden Llanrwst.

Dyma air gan Owain ei hun:
"Ga'i ddiolch o galon i chi am y croeso arbennig rwyf wedi'i dderbyn, mae pawb wedi gwneud imi deimlo mor gartrefol. Rydw i wedi dotio at y teimlad cadarnhaol o amgylch y capel ac ymhlith ei aelodau, mae pawb mor weithgar. Rydw i hefyd yn ddiolchgar iawn am y parodrwydd i gydweithio a chynorthwyo. Rydw i wirioneddol wedi mwynhau pob eiliad o'r swydd newydd hyd yn hyn. Rydw i'n edrych ymlaen ac yn gyffrous iawn wrth feddwl am y dyfodol."

Owain, Mari a'u plant Gruff a Lena

TRIP YR YSGOL SUL

BEDWYR LLŶR WILLIAMS

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 7, aeth criw o blant yr Ysgol Sul a'u rhieni ar drip i Gelli Gyffwrdd. Fel y gwelwch o'r llun ar y dudalen flaen, roedd pawb yn gwybod ein bod ni ar ein ffordd! I ddechrau, aethom ar y slejis. Aeth Owain Davies yn rhy gyflym, nes disgyn oddi ar y slej a rowlio ar ei hyd gan faeddu ei drowsus a'i gôt. Rydw i'n amau mai *stuntsman* yn Hollywood oedd o cyn dod atom ni i weithio fel Gweithiwr Ieuenctid!

Cawsom lawer o hwyl yn mynd i fyny ac i lawr y sleidiau dŵr melyn ac oren newydd. Roedd hi'n ras enfawr ar y beics lleuad gyda phawb yn gwibio o flaen ei gilydd fel gwybed. Sgrechiodd pob mam ar roler coster y Ddraig Werdd ac roedd y lluniau yn werth eu gweld gyda'r holl wynebau syn!

Ar ôl i bawb fwyta eu picnic, daeth hi'n gawod drom o law. Doedd dim gwahaniaeth am hynny, roedd yn rhaid mynd ar y cychod jyngl ac osgoi'r crocodeil. Cawsom fynd i chwarae tu mewn wedyn a mwynhaodd y rhieni eu hunain yn cael paned yn gynnes braf. Trip da iawn, diolch i bawb am eu cwmni!

Alaw a Math ar y beic lleuad!

Owain Davies, ein Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, ar ôl iddo syrthio oddi ar ei slej!

Alaw, Siôn a dau fwnci bach arall!

CANRIF BRYSUR MAIR THOMAS

GWENNO PRITCHARD

Gwelsom yn y rhifyn diwethaf o *Ichthus* fod Mair Thomas wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed, ond tybed beth oedd ei hanes yn ystod y can mlynedd hynny?

Fe aned Mair ar Fehefin 28, 1917, yn blentyn cyntaf-anedig i Gruffydd Lewis Davies a'i wraig Catherine, oedd yn byw yn Llwynedd, ar waelod allt Penchwintan, gyda'i chwaer Margaret yn ymuno â'r teulu dair blynedd yn ddiweddarach.

Roedd y teulu yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Berea, Glanadda, ac ymhen amser fe godwyd ei thad yn flaenor yno. Ar y pryd roedd nifer o fyfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer y weinidogaeth yn lletya yng Nglanadda, ac yn dod i'r cyfarfodydd yn y capel yn ystod yr wythnos. Un ohonynt oedd Michael Thomas, o Lanberis, a dyna oedd dechrau ei berthynas ef a Mair. Yna, wedi iddo gwblhau ei gwrs yn y Coleg Diwinyddol, yn Aberystwyth yn 1945, fe briodwyd y ddau yng Nghapel Berea. Ar ôl priodi fe aeth y ddau i lawr i'r de i'w heglwys gyntaf yn Nghaerau, ger Maesteg. Roedd hon yn ardal y pyllau glo, gyda nifer o wŷr o'r gogledd wedi ymgartrefu yno, oherwydd prinder gwaith yn y gogledd. Roedd hi'n ardal groesawus iawn a buan iawn y cartrefodd Mair a Michael yno.

Yna, ar ôl tair blynedd hapus iawn yn Nghaerau, cafodd Michael Thomas alwad i'w ail eglwys, yn Drefach Felindre, ar y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Dyma ardal y melinau gwlân, a nhw yn ogystal â'r ffermydd oedd prif gyflogwyr yr ardal. Roedd y capel yn ganolbwynt yr ardal, gyda chryn bwyslais ar y gwasanaeth cymun, a llawer o weithgareddau yn mynd ymlaen yno.

Ar ôl deng mlynedd yn yr ardal wledig yma, daeth galwad i'r gogledd, i Benmaen-mawr, yn 1958. Roedd hon yn ardal dipyn yn wahanol, yn fwy Seisnigaidd, a'r diwydiant ymwelwyr yn bwysig bryd hynny. Roedd Cynan wedi bod yn weinidog yn yr ardal, ac roedd y cwmnïau drama a sefydlwyd ganddo yn dal i ffynnu. Roedd gan Michael Thomas ddiddordeb ym myd y ddrama hefyd, a bu yntau yn weithgar yn y maes yma, ac mewn sawl maes arall ynghlwm â'r capel.

Cafwyd deng mlynedd mlynedd hapus yma hefyd, ac yna cafodd Michael Thomas alwad i Wyddelwern, ger Corwen, yn Sir Feirionnydd, yn 1968. Roedd hon yn ardal wledig, amaethyddol a Chymreig, gyda'r gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig yma drachefn. Un a oedd yn gweinidogaethu ym mhentref cyfagos Carrog oedd Evan Lynch, oedd wedi bod yn was priodas i

Mair a Michael Thomas, ac fe gafwyd cyfle i ailgydio yn y cyfeillgarwch hwnnw.

Wedi pum mlynedd prysur ond dedwydd unwaith eto, yn 1974 daeth galwad i Michael Thomas i weinidogaethu yn Llanidloes, yng nghapel hardd Bethel, Heol China. Roedd hon yn ardal wahanol eto, gyda'r tir yn fwy gwastad, er bod amaethyddiaeth yn bwysig yma hefyd. Roedd mwynder Maldwyn yn amlwg yn y gymdogaeth, ond roedd yn ardal eithaf Seisnig, gyda llawer o bobl yn deall Cymraeg ond ddim yn ei siarad. Erbyn hyn doedd dim cymaint o blant yn mynychu'r capel, a dim cymaint o fwrlwm yno, gyda mwy o bwyslais ar weithgareddau yn y dref. Yna ar ôl deng mlynedd bodlon yma hefyd, a hwythau'n uchel iawn eu parch yn ôl cyn-aelod, ar ddydd pen-blwydd Mair, fe benderfynodd Michael Thomas ymddeol yn 1984. Ar ôl gwasanaethu am bron i ddeugain mlynedd mewn pum eglwys, mewn ardaloedd amrywiol iawn ar draws Cymru, roedd Mair yn awyddus i bwysleiso cymaint yr oeddynt wedi gwerthfawrogi'r caredigrwydd a'r cyfeillgarwch a ddangoswyd tuag atynt. Mae Mair yn dal mewn cysylltiad gyda rhai o'r aelodau ym mhob un o'r eglwysi hynny.

Gan fod y ddau ohonynt yn dod o'r gogledd, penderfynodd Mair a Michael Thomas ymddeol i Fangor. Ond doedd yr un o'r ddau yn rhai am segura, felly penderfynwyd y byddai hyn yn gyfle i deithio'r byd. Buont yng Nghanada, y Swistir, Oberammergau, Awstralia a Florida, lle roedd gan Michael Thomas deulu. Yn drist iawn bu farw Michael Thomas yn 1996, ond mae Mair yn dal yn brysur yn mynd i'r capel ddwywaith y Sul, i gyfarfodydd yr wythnos, ac yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr, Bangor.

Daeth rhyw 30 at ei gilydd i fwynhau llond bol o de pnawn ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel, 16 Hydref.

CADAIR I LLIO

Llongyfarchiadau i Llio Eurgain ar ennill cadair Ysgol y Garnedd ddiwedd y tymor diwethaf. 'Arwr' oedd testun ei stori fuddugol. Yn y llun hefyd, mae Steffan ddaeth yn ail, a Lisa, Llio ac Awen gafodd gydradd drydydd, ynghyd â Mr Llion Williams, y prifathro, a'r Parch Huw John Hughes, yr Archdderwydd. Y beirniad oedd Mrs Ruth Owen o'r Garnedd.

Mae Llio Eurgain bellach yn Ysgol Tryfan ac rydym yn siŵr y byddwn yn clywed mwy am ei dawn ysgrifennu yn y fan honno.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Rêl Clown!

Trân ymweld yn yr ysbyty, rhoddodd gweinidog gip olwg dros restr enwau'r cleifion oedd ar wal swyddfa'r Matron. Gwelodd fod y llythrennau 'R.C.' yn ymddangos yn aml wedi enw a gwnaeth sylw am y nifer helaeth o Gatholigion. "O na," meddai'r Matron, "nid eu henwad yw'r 'R.C.' ond eu dewis o frecwast – Rice Crispies!"



OEDFA DIOLCHGARWCH Y PLANT

Cafwyd oedfa ddiolchgarwch ddifyr yng nghwmni aelodau'r Ysgol Sul ar 15 Hydref. Roedd yr athrawon wedi gofyn i'r gwahanol ddosbarthiadau am beth yr oeddynt yn teimlo'n ddiolchgar gan ddweud pam – am restr o rai o'r atebion diddorol a gafwyd, gweler Gair Gan y Gweinidog ar dud.3! Diolch i bawb fu'n hyfforddi'r plant, i'r Gweindog am arwain y gwasanaeth ac i'n gweithiwr plant, ieuenctid a theuluoedd newydd, Mr Owain Davies, am rannu gair o brofiad personol mor ddirdynnol gyda'r plant. Yn ôl yr arfer daeth y plant â rhoddion ar gyfer yr henoed a'r bocs bwyd ar gyfer yr anghenus.

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
12 TACHWEDD	158 ELEN GWYNN	67 OWAIN GWYNN
19 TACHWEDD	143 TOMOS ROBERTS	9: 1–2 A 9–10 SIÔN ROBERTS
26 TACHWEDD	159 EFA HUW	19: 1–6 SIWAN HUW
3 RHAGFYR	93 SIÔN STEFFAN	106: 1–5 TRYSTAN
10 RHAGFYR	409 FFLUR EDWARDS	148: 1–6 CATRIN EDWARDS
17 RHAGFYR	GWASANAETH NADOLIG	

Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Mari Lois –
dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.

Y DYDDIADUR

HYDREF

Llun 30 BEREA NEWYDD: Llan Llanast Calan Gaeaf. Gweithgareddau hwyliog, croeso i bawb o bob oed, cinio i gloi. **10yb - 1yp**

TACHWEDD

Iau 2 Seiat Berea Newydd. **7yh**

Llun 13 Clwb CIC Bang Bach (Blwyddyn Ysgol 3-6). **6-7yh**

Iau 16 Seiat Berea Newydd. **7yh**

Mawrth 21 BEREA NEWYDD: Cyngerdd Corwynt Cariad, gyda Chôr Seiriol a Huw Harvey. **7yh**

Iau 23 Seiat Berea Newydd. **7yh**

Iau 30 Seiat Berea Newydd. **7yh**

RHAGFYR

Sul 17 BEREA NEWYDD: Parti Nadolig yr Ysgol Sul i ddilyn Gwasanaeth Nadolig y plant. **tua 6yh**

CYMUN YN Y CARTREF

Os oes aelod sy'n methu dod i'r oedfaon a fyddai'n hoffi cael cymun gartref, a wnewch chi gysylltu â blaenor eich corlan neu'r gweinidog (elwynrichards@btinternet.com / 01286 676435) i drefnu hynny, os gwelwch yn dda.

CROESO
Ysgol
Sul
Bera
WELCOME